national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# Amgueddfa Cymru

## amgueddfa ddysg o safon ryngwladol

ein gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf

national wool museum
amgueddfa wlân cymru

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

st fagans national history museum
sain ffagan amgueddfa werin cymru

big pit national coal museum
amgueddfa lofaol cymru

national slate museum
amgueddfa lechi cymru

national roman legion museum
amgueddfa lleng rufeinig cymru

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum

Trwy ein casgliadau rhagorol, ein rhagoriaeth guradurol a'n harbenigedd addysgol, rydyn ni mewn sefyllfa ddelfrydol i feithrin goddefgarwch, dinasyddiaeth a pharch rhwng gwahanol gymunedau Cymru a'r byd.

Mae ein Gweledigaeth yn deillio o gyfnod o ymgynghori allanol a datblygu mewnol. I ddysgu rhagor am ein gwaith ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk.

Mae Amgueddfa Cymru'n rhannu'r un amcanion â'r corff sy'n ein noddi, sef Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad a amlinellwyd yng nghynllun strategol y Llywodraeth, *Cymru: Gwlad Well*, i 'gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog'.

# ein gweledigaeth **yw creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol**

**I gyflawni hyn, rhaid i ni gyfuno**

> *rhagoriaeth* ein dulliau o *rannu'r* wybodaeth sydd ynghlwm wrth y casgliadau cenedlaethol â'n

> datblygiad ni ein hunain fel corff sy'n dysgu yn ddi-baid.

**Sut beth fydd yr Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol?**

> Mae dysgu'n gatalydd ar gyfer newid – felly bydd pethau'n edrych ac yn teimlo'n wahanol…

> bydd y bobl sy'n ymweld eisoes yn canfod profiadau newydd yn eu hamgueddfeydd cenedlaethol…

> ac, am fod pethau'n newid, bydd grŵp newydd sbon o bobl yn darganfod am y tro cyntaf beth mae ein gwaith yn golygu iddynt.

**Yng ngoleuni hyn, ein prif flaenoriaethau dros y deng mlynedd nesaf fydd:**

# creu **amgueddfeydd byw…**

**…lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, â'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol.**

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> greu arddangosfeydd newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i ddangos celf gyfoes a chyflwyno celf hanesyddol a diweddar mewn ffyrdd newydd, gan adael i'r casgliadau celf adrodd amrywiaeth ehangach o straeon

> creu llefydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd lle gallwn ni rannu ffrwyth ein hymchwil gwyddonol a defnyddio ein casgliadau gwyddorau natur, gan helpu ein hymwelwyr i ddeall ein hamgylchedd

> ail-osod y casgliadau archaeoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a datblygu'r dialog rhyngddyn nhw a'r casgliadau bywyd gwerin yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, er mwyn sbarduno straeon newydd

> ehangu'r amrywiaeth o ddulliau dehongli yn Sain Ffagan, er mwyn creu llinell amser hanesyddol clir a chyfleoedd i edrych ar yr haenau cymhleth o brofiadau personol sydd wedi ffurfio'r cymdeithasau a'r unigolion sy'n byw yng Nghymru heddiw. Dyma fydd y cam cyntaf yn y gwaith o greu amgueddfa archaeoleg a hanes genedlaethol yn Sain Ffagan.

**Yn yr holl feysydd hyn, bydd ein gwaith dehongli yn canolbwyntio ar themâu:**

+ Perthyn
+ Gwreiddiau
+ Y Dyfodol
+ Creadigrwydd
+ Bywyd



Mae Oriel Glanely yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr o bob oedran ddod i gael profiad o drin a thrafod y casgliadau.
Ffoto: Kiran Ridley



Mae eglwys ganoloesol Teilo Sant yn cael ei hadeiladu carreg wrth garreg yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.
Ffoto: Wales News Service

# datblygu **casgliadau llewyrchus…**

**…sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac sy'n tyfu.**

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> ychwanegu at y casgliadau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i anghenion heddiw a'r dyfodol; cydweithio â grwpiau perthnasol ac ymwelwyr, er mwyn sicrhau bod y casgliadau'n golygu rhywbeth i bobloedd a diwylliannau amrywiol Cymru

> ailwampio ein hamgueddfeydd, er mwyn i'r ymwelwyr gael mwynhau'r casgliadau mewn awyrgylch hwylus, diogel a deniadol

> cynnal safonau gofal rhyngwladol, er mwyn cadw ein casgliadau'n ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

> creu mannau astudio a gwella ein dulliau o gyfleu canlyniadau a chanfyddiadau ein hymchwil ar sail y casgliadau, er mwyn ehangu mynediad corfforol a deallusol i'r casgliadau cyfeirio.

# canfod **llwybrau i wneud synnwyr o'r byd…**

**…gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau.**


**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> ddysgu gan ein hymwelwyr, er mwyn defnyddio'r casgliadau i greu profiadau dysgu gwerthfawr a phleserus sy'n adlewyrchu gwahanol anghenion addysgol ein hymwelwyr ni i gyd

> defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i greu 'Rhith-Amgueddfa i Gymru' â chwmpas lleol a byd-eang, er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu newydd mewn gwahanol ffyrdd ac amgylchiadau

> parhau i weithredu ein Strategaeth i Brif-ffrydio'r Gymraeg wrth sicrhau ein bod ni'n cynhyrchu deunyddiau dehongli yn Gymraeg a Saesneg, a datblygu darpariaeth mewn ieithoedd eraill – ieithoedd Ewropeaidd ac ieithoedd diwylliannau amrywiol Cymru

> sicrhau bod ein rhaglenni ymchwil yn bodloni gofynion ein hymwelwyr a'n defnyddwyr yn ogystal â gofynion y casgliadau; nodi amcanion dysgu a thargedu cynulleidfaoedd yn ein holl brojectau, er mwyn creu amgueddfa sy'n troi o gylch y defnyddwyr.




Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe'n defnyddio'r dulliau dehongli diweddaraf i ddod â hanes diwydiannol Cymru'n fyw. Bydd y datblygiadau newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan yn adeiladu ar hyn.
Ffoto: Steve Benbow




Daw ein hamgueddfeydd yn llefydd mwyfwy croesawgar lle bydd ymwelwyr yn rhannu ein gwaith ac yn cyfrannu at ei ddatblygiad.
Ffoto: Steve Benbow

# dysgu
# **trwy rannu…**

**…ein cynlluniau a'n dulliau o weithio ag ymwelwyr, er mwyn creu ffyrdd ystyrlon i'r amrywiaeth o bobloedd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru ddefnyddio'r casgliadau.**

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> ganfod ffyrdd o gyrraedd a chroesawu pobl sydd ddim yn ymweld â'n hamgueddfeydd ar hyn o bryd, a gofyn sut y gallwn ni wneud ein digwyddiadau, ein harddangosfeydd a'r casgliadau cenedlaethol yn fwy perthnasol i'r amrywiaeth o wahanol ffyrdd o fyw yng Nghymru heddiw

> estyn allan at ein partneriaid yng nghymunedau amrywiol Cymru a dysgu ganddynt, er mwyn ehangu a datblygu cwmpas ein gwaith ar hyd llwybrau dysgu newydd

> cymryd camau i sicrhau cydraddoldeb hiliol, a gosod ymrwymiad i'r gwerthoedd sydd ynghlwm wrth gymdeithas agored ac amrywiol wrth galon ein holl waith, er mwyn ein helpu i ddatblygu sefydliad goddefgar ac amlddiwylliannol

> datblygu ein hagenda ddysg, er mwyn dod yn adnabyddus fel sefydliad sy'n trafod materion cyfoes mewn naws gynhwysol heb ragfarn.

# cyfathrebu

**…fel y daw Amgueddfa Cymru'n adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol.**


**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> ddatblygu ein rhaglenni cyhoeddus a defnyddio ffrwyth ein gwaith ymchwil a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrth y casgliadau i gychwyn trafodaeth er mwyn i'n hamgueddfeydd ddod yn ganolfannau trafod cydnabyddedig am faterion sydd o bwys i'r cyhoedd

> cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn ôl safonau rhyngwladol cydnabyddedig a ffurfio partneriaethau â'r sector addysg uwch, fel y daw'n hamgueddfeydd yn adnabyddus ledled y byd fel ffynonellau data a gwybodaeth awdurdodol am y casgliadau

> agor y casgliadau cenedlaethol i ragor o bobl a chodi eu proffil yn lleol trwy weithio gyda'n partneriaid, er mwyn dehongli ac arddangos gwrthrychau mewn amrywiaeth o gymunedau ledled Cymru

> benthyg gwrthrychau ac arddangosfeydd i ganolfannau ledled y byd, er mwyn hyrwyddo'r casgliadau a chodi ymwybyddiaeth fyd-eang am ein gallu i adrodd y straeon sydd ynghlwm wrthynt a, thrwy hynny, gyfrannu at gyfanswm gwybodaeth y ddynol-ryw.



Mae pwysigrwydd rhyngwladol i'n casgliadau a'r gwaith ymchwil cysylltiedig. Un eitem sydd wedi dod i law'n ddiweddar yw copi o *Geological Map of England and Wales and Part of Scotland* byd-enwog William Smith, neu'r 'map a newidiodd y byd'.



Tywyswyr Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yw un o'n hadnoddau mwyaf unigryw – cyn-lowyr ydyn nhw, ac mae eu hatgofion byw yn rhan annatod o brofiad yr ymwelwyr.
Ffoto: Wales News Service

# tyfu **trwy ddysgu…**

**…wrth blannu a dathlu sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith.**

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> feithrin a chynnal doniau ac ymroddiad ein staff, ein hymgynghorwyr a'n gwirfoddolwyr, a sicrhau eu bod nhw'n cael hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol

> gwella ein cyfathrebu mewnol a chreu sianeli addas ar gyfer mewnbwn a dialog, fel bod ein holl staff, ymgynghorwyr a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'n hamcanion, ein blaenoriaethau a'n datblygiadau gweithredol

> datblygu systemau newydd i fesur ein perfformiad ar sail ansawdd ein gwaith drwy werthuso'n hunain yn barhaus er mwyn ein helpu ni i ddod o hyd i ffyrdd ystyrlon o fesur ein llwyddiannau

> cymryd rhan mewn dialog a gweithgareddau meincnodi gyda chyrff tebyg i ni, ein partneriaid a'n budd-ddeiliaid, er mwyn datblygu ein harferion proffesiynol ymhellach a gwella ansawdd ein hamgueddfeydd fel llefydd i weithio ac ymweld â nhw.

# adeiladu **ar ein hadnoddau…**

**…er mwyn creu sail gadarn a chryf i gyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf a'r tu hwnt.**

**Fe wnawn ni hyn drwy:**

> weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyrff eraill sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad ac asiantaethau cyhoeddus, i gynnal a chyflwyno strategaethau i'r celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth er lles pobl Cymru ac ymwelwyr â'r wlad, a chyfrannu at waith rhyngwladol yn y meysydd hyn

> denu'r incwm gorau posibl o amrywiaeth o ffynonellau, er mwyn cyflawni ein projectau blaenoriaeth tymor byr a chanolig ac adeiladu'r gallu i gyflawni ein hamcanion tymor hir, gan gynnwys datblygu Sain Ffagan, Amgueddfa Gelf Cymru ac Amgueddfa Hanes Natur Cymru

> cynllunio adnoddau, rheoli ac adrodd yn effeithiol a chyflawni ein hymrwymiad i gyflawni agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Creu'r Cysylltiadau*, er mwyn cynnal ein busnes mewn ffordd fwy darbodus

> parhau â'n hymrwymiad i gyflwyno a datblygu arferion cynaliadwy yn ein holl amgueddfeydd, er mwyn parhau i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwneud cyfraniad positif at gymunedau lleol ein hamgueddfeydd.




Mae'r Tŷ Gwyrdd yn Sain Ffagan yn edrych ar syniadau i ddatblygu ffyrdd cynaliadwy o fyw yng Nghymru ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf.
Ffoto: Kiran Ridley

# ymlaen gyda’n gilydd

Mae gan Amgueddfa Cymru weledigaeth glir ar gyfer dechrau ein hail ganrif – sef creu amgueddfa ddysg o safon ryngwladol. Man lle gallwch chi ddychmygu, darganfod a chofio, lle gallwch chi uniaethu â gorffennol Cymru, cyfoeth creadigol y celfyddydau ac ieithoedd ac amrywiaeth anhygoel ein hamgylchedd naturiol.

Y dasg i ni fydd cysylltu’r casgliadau a’r syniadau sy’n berthnasol i chi, fel y gallwch chi wneud penderfyniadau mwy gwybodus am y dyfodol.



Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol
Amgueddfa Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am ein Gweledigaeth, ein gwaith, neu i ymuno â ni i gyflawni ein nodau, ffoniwch Arabella Smith yn yr Uned Cynllunio a Pholisi Corfforaethol ar + 44 (0)29 2057 3268 neu e-bostiwch gweledigaeth@amgueddfacymru.ac.uk.